



**Law
Commission**
Reforming the law

Gwaith Comisiwn y Gyfraith



**Law
Commission**
Reforming the law

Gwaith Comisiwn y Gyfraith



© Hawlfraint y Goron 2017

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall.

I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU neu anfonwch e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Comisiwn y Gyfraith www.lawcom.gov.uk.

COMISWN Y GYFRAITH

Sefydlwyd Comisiwn y Gyfraith gan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 gyda'r pwrpas o hyrwyddo a diwygio'r gyfraith.

Comisiynwyr y Gyfraith yw:

Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Bean, Cadeirydd
Yr Athro Nick Hopkins
Yr Athro David Ormerod CF
Nicholas Paines CF
Stephen Lewis

Philip Golding yw Prif Weithredwr Comisiwn y Gyfraith.

Lleolir Comisiwn y Gyfraith yn 1st Floor Tower, 52 Queen Anne's Gate, Llundain, SW1H 9AG.

Cytunwyd termau'r ddogfen hon ar 22 Mai 2018.

Mae testun y ddogfen hon ar gael ar wefan Comisiwn y Gyfraith yn www.lawcom.gov.uk.

Tudalen

cynnwys

PENNOD 1: PWY YDYM NI A SUT YR YDYM YN GWEITHIO	6
Ynglŷn â'r ddogfen hon	6
Ynglŷn â'r Comisiwn y Gyfraith	6
Sut yr ydym yn derbyn ein gwaith	7
Pwy ydym ni	7
Ein rhanddeiliaid	8
Gweithredu	8
Diwygio'r gyfraith yng Nghymru	8
Sut yr ydym yn gweithio	9
Cyfraith statud	10
PENNOD 2: PROSIECTAU DIWYGIO'R GYFRAITH	12
Cyflwyniad	12
Cerbydau awtonomaidd	12
Atafaelu	13
Atal Gwyngalchu Arian	13
Tribiwnlysoedd datganoledig Cymru	14
Dogfennau sy'n cael eu cwblhau â llofnod electronig	15
Cyfraith etholiadol	16
Strwythur Gwrando'r Gyfraith Cyflogaeth	17
Yswirio Diddordebau	18
Cofrestru tir	18
Making land work – easements, covenants and profits à prendre	19
Camymddwyn mewn swydd gyhoeddus	21
Cyfathrebu sarhaus ar-lein	21
Cyfraith Cynllunio yng Nghymru	22
Diogelu Data Swyddogol	23
Lesddaliad preswyl a chydaddaliad	23
Gwarantau chwilio	25
Y Côd Dedfrydu	26

Symleiddio Rheolau Mewnfudo	26
Contractau call	27
Geni babi ar ran rhywun arall	28
Ewyllysiau	29
Prosiectau arfaethedig pellach	30

Gwaith Gwaith Comisiwn y Gyfraith

Chapter 1: Pwy ydym ni a sut yr ydym yn gweithio

YNGLŶN Â'R DDOGFEN HON

- 1.1 Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'n holl waith presennol. Wrth wneud hyn, mae'n cynnwys: prosiectau parhaus yn deillio o Raglenni Diwygio'r Gyfraith blaenorol; holl gyfeirnodau Gweinidogol a dderbynir gan y Llywodraeth; prosiectau'r 13^{eg} Raglen sydd naill ai wedi'u cychwyn neu lle mae cynlluniau cadarn mewn lle i'w ddechrau; cyfeirnodau Gweinidogol newydd sydd ar fin cychwyn. Ar gyfer pob prosiect, rydym yn egluro pam y credwn fod angen diwygio'r gyfraith yn y maes, ac yn crynhoi effaith a manteision posibl o'i diwygio.

YNGLŶN Â'R COMISIWN Y GYFRAITH

- 1.2 Corff cyhoeddus anadrannol a sefydlwyd gan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 yw Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr. Mae gan y Comisiwn statws cyrff hyd braich, yn rhan o deulu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- 1.3 Ein swyddogaeth statudol yw cadw'r gyfraith Cymru a Lloegr dan adolygiad ac argymhell diwygio lle bo'r angen. Nod y Comisiwn yw sicrhau bod y gyfraith yn deg, yn fodern, yn syml ac mor gost-efeithiol â phosibl.
- 1.4 Rydym yn mynd i'r afael ag unrhyw faes cyfraith sy'n addas am ystyried gan gorff annibynnol o arbenigwyr polisi cyfreithiol. Mae ein gwaith yn amrywio'n sylweddol o fod yn dechnegol uchel, megis diddymu deddfau sydd wedi dyddio ac ailwampio cyfraith sy'n rhy gymhleth, ac o ffurfio dulliau cyfreithiol newydd i faterion polisi cymdeithasol uchel eu proffil. Fel rheol, mae ein prosiectau yn ystyried meysydd weddol gymhleth o'r gyfraith yn hytrach na materion cyfreithiol bychan.
- 1.5 Mae bod yn sail i'r ffordd yr ydym yn gweithio yw bod yn annibynnol o'r Llywodraeth a'r ffordd wrthrychol yr ydym yn cyflwyno ein gwaith. Golyga hyn y gall y cyhoedd a'r rhanddeiliaid fod yn hyderus y byddai ein hymgyngoriadau yn wirioneddol agored, byddwn ni'n ceisio cael consensws lle bo'n bosibl, a bydd ein cynigion yn cael eu trin heb unrhyw ragfarn wleidyddol.
- 1.6 Ariennir y Comisiwn drwy amrywiaeth o gyllid craidd wedi'i ddarparu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a gall y Comisiwn hefyd gael incwm gan Adrannau Whitehall am brosiectau unigol. Gan fod ein cyllid craidd wedi'i leihau, mae'r Comisiwn wedi dod yn fwyfwy dibynnol ar brosiectau sy'n cynhyrchu incwm. Mae'r rhain bennaf yn fannau blaenoriaeth uchel i'r Llywodraeth. Mae prosiectau cyllid craidd erbyn hyn yn llai mewn nifer ond nad ydynt yn llai gwerthfawr.

"Nerth craidd Comisiwn y Gyfraith yw ei ddull tuag at y broses diwygio'r gyfraith. Trwy weithio ar raglen graidd a ddatblygir yng ngoleuni ymgynghori cyhoeddus, mae'n mynd at y dasg yn drylwyr.

"Arweinir timau o gyfreithwyr gan arbenigwyr adnabyddus sy'n Comisiynwyr Cyfraith a'r Cadeirydd y Comisiwn. Mae'n tynnu ar helaeth o brofiad yn sicrhau bod ei gynigion yn gwneud y gyfraith yn fwy rhesymegol a hygyrch."

Yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd, Prif Arglwydd Ustus, Darlith Scarman, Mehefin 2017

SUT YR YDYM YN DERBYN EIN GWAITH

- 1.7 Mae modd i'r Comisiwn y Gyfraith dderbyn gwaith drwy ddwy sianel. Yn gyntaf, fel rhan o Raglen Diwygio'r Gyfraith, mae'n rhaid cael ei chymeradwyo gan yr Arglwydd Ganghellor a'i gosod gerbron y Senedd. Datblygir rhaglenni o'r fath bob tair i bedair blynedd yn seiliedig ar ymgynghoriad cyhoeddus. Cyhoeddom ein 13^{eg} Raglen ar ddiwedd 2017. Yn ail, drwy ddull cyfeirnod gweinidogol, lle gall unrhyw Weinidog neu Weinidog Cymru ofyn i'r Comisiwn ystyried ymgymryd â phrosiect diwygio'r gyfraith.
- 1.8 Rydym wedi cymryd yr agwedd y dylai'r 13^{eg} Raglen gynnwys ystod eang o brosiectau posibl ond efallai na fyddwn ni'n gallu lawnsio bob un o'r prosiectau hyn yn y Rhaglen tair blynedd arferol. Nid ydym wedi cynnwys yn y ddogfen hon, felly, gwybodaeth fanwl am y prosiectau hyn lle nad oes trefniadau mewn lle i gychwyn gwaith yn y dyfodol agos.

PWY YDYM NI

- 1.9 Mae pump comisiynydd statudol yn Comisiwn y Gyfraith. Cadeirydd Comisiwn y Gyfraith yw'r Barnwr Llys Apêl, Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Bean.
- 1.10 Mae pob un o'r pedwar comisiynwyr eraill yn arbenigwr cyfreithiol blaenllaw yn arolygu pedwar tîm:
 - Cyfraith Fasnachol a Chyfraith Gyffredin: Stephen Lewis
 - Cyfraith Droseddol: Yr Athro David Ormerod CF
 - Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedaeth: Professor Nick Hopkins
 - Cyfraith Gyhoeddus a Chyfraith Cymru: Nicholas Paines CF
- 1.11 Arweinir Comisiwn y Gyfraith gan Brif Weithredwr, Phil Golding, ac mae'n cael eu cefnogi gan dîm o gyfreithwyr, cynorthwyywyr ymchwil, economydd mewnol a Chwnsler Seneddol a thîm gweinyddol bach.
- 1.12 Mae'r Comisiwn hefyd yn ddigon ffodus i fod yn gallu tynnu ar arbenigedd dau Aelod Bwrdd Anweithredol: Syr David Bell (Is-Ganghellor, Prifysgol Reading) a Bronwen

Maddox (Cyfarwyddwr, Sefydliad i'r Llywodraeth).

EIN RHANDEILIAID

1.13 Mae ein gwaith yn cael ei gefnogi gan ystod eang o randdeiliaid. Mae eu mewnbwn a'u harbenigedd yn ein helpu i sicrhau bod ein prosiectau yn gadarn a realistig, wedi eu hystyried yn llawn a'u bod yn rhesymegol deallus. Ymhlith ein prif rhanddeiliaid mae'r: farnwriaeth; seneddwyr; arbenigwyr cyfreithiol ac academyddion; arbenigwyr pwnc o'r trydydd sector a'r sector preifat; swyddogion y llywodraeth; gweinidogion; ac, aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno rhannu eu profiadau am y gyfraith gyda ni. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r rhai sydd wedi cymryd amser i gefnogi ein gwaith.

GWEITHREDU

1.14 Rydym wedi cynhyrchu mwy na 350 o setiau o argymhellion diwygio'r gyfraith dros fwy na 50 mlynedd; mae dwy ran o dair ohonynt wedi cael eu gweithredu naill ai'n llawn neu'n rhannol. Er mwyn cynyddu'r gobaith am weithredu, mae nifer o gamau wedi'u cymryd a'u digwydd dros y blynyddoedd diwethaf.

1.15 Yn gyntaf, amlinellodd Deddf Comisiwn y Gyfraith 2009 nifer o ddulliau ymarferol o fynd i'r afael â'r mater hwn, gan sicrhau bod adroddiadau yn cael eu hystyried a'u, os derbynnir, gweithredu gan y Llywodraeth mewn modd amserol. Mae'n gosod dyletswydd ar yr Arglwydd Ganghellor i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Senedd yn amlinellu cynnydd y Llywodraeth yn gweithredu ein hargymhellion.

1.16 Yn ail, cytunwyd Protocol yn Mawrth 2010 a oedd yn nodi na fyddai Comisiwn y Gyfraith yn cytuno i wneud prosiect heb ymrwymiad gan y gweinidog perthnasol bod yna fwrriad gwirioneddol i symud ymlaen gyda diwygio'r gyfraith yn y maes hwnnw. Mae'n hefyd yn gofyn bod y gweinidog perthnasol yn darparu ymateb interim o fewn chwe mis o gyhoeddi adroddiad, ac ymateb terfynol o fewn blwyddyn.

1.17 Yn olaf, yn Hydref 2010, cymeradwyodd Tŷ'r Arglwyddi ddull gweithredu seneddol newydd ar gyfer Biliau "annadleuol" Comisiwn y Gyfraith. Bwriad y dull gweithredu yw lleihau'r amser a dreulir gan Comisiwn y Gyfraith yn trafod Biliau ar lawr Tŷ'r Arglwyddi drwy ganiatáu rhai camau i'w cwblhau gan y Pwyllgor. Mae hyn yn caniatáu'r Biliau i'w hystyried ac archwilio er gwaetha pwysau amser y Senedd.

DIWYGIO'R GYFRAITH YNG NGHYMRU

1.18 Ni yw Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr. Mae diwygio'r gyfraith yng Nghymru bob amser wedi bod yn rhan hanfodol o'n gwaith, ond mae natur y gwaith wedi newid wrth i ddatganoli gyflymu yn y DU. Mae'r Comisiwn yn aros yn ymrwymedig at ddiwallu anghenion diwygio'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn y cyd-destun cyfansoddiadol datblygol hyn.

1.19 Fe wnaeth Deddf Cymru 2014 ddiwygio Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 er mwyn ystyried datganoli yng Nghymru, yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfeirio prosiectau diwygio'r gyfraith yn uniongyrchol at y Comisiwn am y tro cyntaf. Erbyn hyn, mae ein gwaith ar gyfer Gweinidogion Cymru yn cael ei lywodraethu gan brotocol, a lofnodwyd yng Nghaerdydd gan Syr David (bellach yr Arglwydd) Lloyd Jones, ein Cadeirydd ar y

pryd, a Phrif Weinidog Cymru, ac wedi'i gyflwyno i Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Gorffennaf 2015.

- 1.20 Mae perthynas Comisiwn y Gyfraith â Llywodraeth Cymru yn sefydlog erbyn hyn. Roedd y 12fed Raglen Diwygio'r Gyfraith yn cynnwys dau brosiect penodol ar gyfer Cymru yn unig. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ar *Ffur a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru* yn Mehefin 2016. Derbyniodd y Cwnsler Cyffredinol, ar ran Gweinidogion Cymru, y mwyafrif o'n hargymhellion yn Mehefin 2017. Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos bwriad i ddilyn proses hirdymor o gyfundrefnu'r gyfraith o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol, ac mae prosiect peilot ar y gweill.
- 1.21 Ar 20 Mawrth 2018, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y Bil Deddfwriaeth (Cymru) drafft. Byddai Rhan 1 y Bil drafft yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi rhaglenni i gadw'r gyfraith yng Nghymru yn hygyrch, a allai gael ei ymgymryd ar y cyd gyda'r Comisiwn y Gyfraith. Rydym yn croesawu'r datblygiad hwn a byddwn yn parhau i gynnig unrhyw gymorth y gallwn ni.
- 1.22 Cyhoeddodd bapur ymgynghori pwysig, Cynllunio'r Gyfraith yng Nghymru, yn Tachwedd 2017. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw yn sylfaen ar gyfer ein hadroddiad ac yn nodi cynigion ar gyfer symleiddio'r gyfraith cynllunio yng Nghymru. Dylai'r Adroddiad hwn, yn ei dro, greu Bil Cynllunio newydd, a fydd yn sylfaen ar gyfer Côt cynllunio arfaethedig i Gymru. Rydym yn gweithio'n agos ac yn gynhyrchiol â chyfarwyddiaeth cynllunio Llywodraeth Cymru, a Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ar y prosiect hwn.
- 1.23 Rydym yn parhau i adolygu'r peirianwaith ar gyfer diwygio'r gyfraith yng Nghymru, ac yn gwneud gwelliannau lle y gallwn. Rydym nawr yn gweithredu polisi iaith Gymraeg newydd, a chytunwyd arno mewn ymgynghoriad â'r Comisyndd yr Iaith Gymraeg, ac yn cyhoeddi papurau yn ddwyieithog lle bo hynny'n briodol. Yn ddiweddar, rydym wedi ehangu rôl un o'n Comisyndd, Nicholas Paines CF, yn rhoi cyfrifoldeb penodol iddo am y gyfraith yng Nghymru. Rydym yn ddiolchgar i aelodau Pwyllgor Cynghori Cymru Comisiwn y Gyfraith sydd wedi rhoi o'u hamser a'u profiad i helpu cefnogi ein gwaith yng Nghymru.
- 1.24 Awgrymodd y^{ddogfen ymgynghori} 13eg Raglen ddau brosiect yn ymwneud â Chymru yn unig a derbyniwyd nifer o ymatebion ymgynghori gan ymgynghoreion o Gymru, gan gynnwys cynigion ar gyfer prosiectau mewn meysydd o'r gyfraith sydd wedi'u datganoli. Cynigiodd Pwyllgor Cynghori Cymru fewnbwn gwerthfawr yn ymwneud â phrosiectau ar gyfer Cymru yn unig ac o ran yr effaith y bydd prosiectau arfaethedig eraill yn eu cael yng Nghymru.
- 1.25 Wrth ystyried y ffocws ar Brexit, yn ogystal â'r cynllun peilot yn ymwneud â chyfundrefnu, nid yw ein trafodaethau â Llywodraeth Cymru wedi arwain at faes penodol sy'n addas ar gyfer prosiect diwygio'r gyfraith yng Nghymru yn unig hyd at hyn. Rydym wedi trafod gyda Llywodraeth Cymru, y farnwriaeth a rhanddeiliaid eraill yn ymgymryd â phrosiect yn gysylltiedig â thriwiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru a byddwn yn datblygu'r syniadau hyn dros y misoedd nesaf. Byddai unrhyw waith o'r fath yn cael ei dderbyn fel cyfeirnod Gweinidogol o Lywodraeth Cymru ac yn cael ei weithredu ar y cyd â'r prif Raglen.

SUT YR YDYM YN GWEITHIO

Cyn ymgynghori

- 1.26 Pan fyddwn ni'n dechrau prosiect diwygio'r gyfraith, byddwn yn cytuno ar gylch gorchwyl gyda'r Adran noddedig berthnasol wedi'i hategu gan Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Unwaith y gofynnir i'r Comisiwn ymgymryd â phrosiect, bydd y tîm yn cychwyn ymchwil i'r maes benodol o'r gyfraith o dan sylw ac yn dechrau trafodaethau rhagarweiniol gyda rhanddeiliaid dylanwadol er mwyn penderfynu ar y meysydd sydd angen ffocws.

Ymgynghori

- 1.27 Gofynnir i'r Comisiwn ystyried rhai meysydd heriol o fewn y gyfraith. Mae gennym allu i weithio drwy'r materion ac yn deall y sabwyntiau gwahanol cyn i ni gyflwyno argymhellion ar gyfer diwygio. Mae'r Comisiwn felly yn ymroddedig i'r egwyddorion o ymgynghori cyhoeddus dilys gyda'r gynulleidfa ehanga posib. Mae hyn yn galluogi archwiliad trylwyr o'n cynigion, a fydd aml naill ai yn cael eu datblygu neu newid yng ngoleuni cyfraniadau'r rhanddeiliaid, yn y DU a dramor.
- 1.28 Fel arfer, mae ein dull yn cynnwys llawer o ymgysylltu wyneb yn wyneb gydag unigolion arbenigol a'r cyrff cynrychiolwyr. Mae hyn, fel arfer, yn digwydd mewn cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus yn ogystal ag ymgynghori cyhoeddus ffurfiol trwyadl yn sicrhau bod gennym ystod eang o ymatebion ymgynghori, o farnau aelodau'r cyhoedd gyda phrofiad personol o'r gyfraith mewn maes arbennig i ddadansoddiadau technegol manwl gan arbenigwyr pwnc. Er bod y proses yn cymryd llawer o amser, mae'n gallu arwain at argymhellion wedi'u hystyried yn llawn a all gael eu profi i fod yn seiliedig ar y dystiolaeth orau bosib.

Argymhellion

- 1.29 Unwaith mae'r dadansoddiad wedi'i gwblhau, bydd Comisiynwyr yn ystyried a chytuno am y polisi a fydd yn cael ei argymhell yn yr adroddiad terfynol. Bydd ein heconomydd mewnol hefyd yn ymgynghori am gael asesiad effaith economaidd a, lle bo angen, bydd y Cwnsler Seneddol mewnol yn gweithio ar ddeddfwriaeth ddrafft.
- 1.30 Rydym yn cyflwyno cynigion mewn adroddiad i'r Llywodraeth, a fydd yn cael ei osod gerbron y Senedd. Gall y rhain fod ar ffurf cyfarwyddyd, cyngor i'r Llywodraeth neu argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith. Mae'n mater i'r Llywodraeth benderfynu wedyn a ydynt am dderbyn yr argymhellion a chyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth angenrheidiol, yn aml gan weithio mewn partneriaeth â'r Comisiynydd, aelodau o'r tîm cyfreithiol perthnasol a'r Cwnsler Seneddol a ddrafftiodd y ddeddfwriaeth.

CYFRAITH STATUD

- 1.31 Mae cydgrynhoi cyfraith statud a diddymu statudau sydd wedi dyddio neu sydd heb ddiben defnyddiol bellach wedi bod ymysg swyddogaethau pwysig Comisiwn y Gyfraith ers iddo gael ei sefydlu. Yn anffodus, yn yr achos lle mae diddymiadau, mae gwaith o'r fath wedi mynd yn amhoblogaidd gyda'r Llywodraeth ac mae'r adnoddau gan y Comisiwn i rannu'r gwaith hwn felly wedi'u lleihau. Er hynny, rydym yn aros yn ymrwymedig at gyflawni'r darn pwysig hwn o'n gwaith.

Diddymiadau cyfraith statud

- 1.32 Trwy foderneiddio'r llyfr statud a'i wneud yn gliriach, yn fyrrach ac yn fwy hygyrch, mae ein gwaith o ddiddymu cyfraith statud yn helpu arbed amser a chostau i ymarferwyr sy'n gweithio gyda'r gyfraith ac eraill sydd angen ei defnyddio. O ganlyniad, mae'n hefyd yn ei gwneud yn haws i ddinasyddion gael mynediad at gyfiawnder.
- 1.33 Ers 1965, mae 19 Bil Diddymu Cyfraith Statud wedi cael eu deddfu, gan ddiddymu dros 3,000 o Ddeddfau yn eu cyfanrwydd a miloedd rhagor yn rhannol. Ar 3 Mehefin 2015, cyhoeddom ein 20^{fed} Adroddiad Diddymu Cyfraith Statud gyda Bil. Yn anffodus, nid yw'r Bil wedi'i gyflwyno i'r Senedd hyd at hyn.

Cydgrynhoi

- 1.34 Mae dros 200 o Ddeddfau cyfuno wedi cael eu deddfu ers i'r Comisiwn gael ei sefydlu ym 1965. Nod y gwaith hwn yw gwneud cyfraith statud yn fwy hygyrch a dealladwy.
- 1.35 Mae Bil cydgrynhoi yn tynnu gwahanol ddeddfau ar yr un pwnc at ei gilydd i greu un testun statudol wrth gynnal effaith y ddeddf gyfredol. Mae'r testun fel arfer yn disodli darpariaethau mewn nifer o Ddeddfau neu offerynnau gwahanol. Mae'n gwaith pwysig iawn; mae'r effaith gynyddol o gael diwygiadau a chyfraith newydd yn gallu ystumio strwythur deddfwriaeth. Bydd cydgrynhoi yn ei gwneud yn fwy rhesymegol a dealladwy. Bydd hefyd yn ceisio cael gwared o unrhyw ddeunydd sydd wedi dyddio, moderneiddio'r iaith a datrys mân anghysondebau neu amwyseddau sydd wedi codi.
- 1.36 Deddfir Biliau Cydgrynhoi drwy ddull gweithredu Seneddol sy'n cymryd ychydig iawn o amser ar lawr y Tŷ; mae'r Biliau yn cael eu cyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi ac, ar ôl Ail Ddarlleniad yr Arglwyddi, archwiliwr y Biliau gan y Cydbwyllgor ar Filiau Cydgrynhoi, a benodir gan y ddau Dŷ yn benodol i ystyried cydgrynhoi a biliau diddymu cyfraith statud, cyn dychwelyd i Dŷ'r Arglwyddi ar gyfer y camau sy'n weddill. Mae'r broses hon yn sicrhau bod yr amser a dreulir yn trafod Biliau yn golygu cyn lleied o amser seneddol ar lawr pob Tŷ.
- 1.37 Mae'r Comisiwn wrthi yn gwneud ymarfer cydgrynhoiad pwysig yn ymwneud â'r gyfraith ddeddfrydu. Mae'r Comisiwn wedi ymgymryd ag ymarfer cydgrynhoiad ystod eang sydd wedi profi bod yna gefnogaeth eang am y gwaith hwn. Mae angen cael cymalau galluogi mewn deddfwriaeth sylfaenol a gobeithiwn y byddai'r Senedd yn gallu dod o hyd i'r amser i wneud hyn.

Chapter 2: Prosiectau Diwygio'r Gyfraith

CYFLWYNIAD

- 2.1 Yn yr adran hon, rydym yn amlinellu'r 21 prosiect diwygio'r gyfraith gyfredol, cyfrifoldeb yr adran, llinellau amser a'r canlyniadau posibl.

CERBYDAU AWTONOMAIDD

Ffynhonnell: 13^{eg} Raglen Diwygio'r Gyfraith
Adran Arweiniol: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Cychwyn: Ionawr 2018
Cwblhad arfaethedig: Gwanwyn 2021
Canlyniad: I'w benderfynu ar ôl astudiaeth cwmpasu

- 2.2 Gofynnodd y Ganolfan Cerbydau Cysylltiedig ac Awtonomaidd (CCAV) i ni adolygu'r gyfraith ynglŷn â cherbydau awtomatig, weithiau wedi'u henwi fel "ceir di-yrwr", i sicrhau ei bod yn addas i'r diben. Mae hyn yn brosiect ar y cyd gyda'r Comisiwn Cyfraith yr Alban fel rhan o'r 13^{eg} Raglen waith. Lanswyd y prosiect yn swyddogol yn Mawrth 2018.
- 2.3 Rydym yn ymchwilio cyfreithiau cyfredol yn rheoleiddio ceir a gyrwyr, o'r cymeradwyaeth math cerbyd a'r cam profi ceir newydd ar y ffordd. Mae'r adolygiad hwn yn ymestyn dros gasgliad o faterion cyfreithiol a bydd yn cychwyn gydag astudiaeth cwmpasu yn ei flwyddyn gyntaf o brosiect tair blynedd.
- 2.4 Mae cerbydau awtonomaidd a yrrir gan system cyfrifiadurol yn hytrach na pherson yn dod â heriau newydd rheoleiddio. Ar hyn o bryd, mae'r gyfraith yn ymwneud â throseddau gyrru yn ei chymryd yn ganiataol bod presenoldeb person yn gyrru'r cerbyd, ac mae gofynion safonol am geir yn cynnwys olwyn lywio a phedalau troed. Byddwn ni'n adolygu cwestiynau ynglŷn â phwy fydd yn gyfrifol am gerbydau awtonomaidd pan nad oes 'gyrrwr' amlwg, pwy fyddai'n gyfrifol am yswiriant y car, gwirio bod y car yn addas ar gyfer y ffordd yn ogystal â sut fyddai'r car yn cael ei yrru.
- 2.5 Byddwn ni'n edrych ar bethau o safbwynt yswiriant (yn dilyn gwaith y llywodraeth fel rhan o'r Bil Cerbydau Awtonomaidd a Thrydan), yswiriant atebolrwydd, ateboliaeth sifil a throseddol a sut y gall gael ei rannu yn briodol pan fydd cerbydau awtonomaidd ar y ffordd. Mae'r prosiect hefyd yn ystyried yr angen am safonau diogelu dibynadwy a rheoleiddio cerbydau newydd, a'r cynlluniau busnes sy'n sail i'r ffordd y defnyddir cerbydau awtonomaidd gan y cyhoedd.

ATAFAEL

Ffynhonnell: Cyfeirnod Gweinidogol

Adran Arweiniol: Swyddfa Gartref

Cychwyn: Awst 2018

Cwblhad arfaethedig: Hydref 2020

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith

- 2.6 Mae'r gyfraith am atafael asedion troseddol yn Rhan 2 Deddf Enillion Troseddau 2002 (POCA) yn galluogi'r wladwriaeth i amddifadu troseddwyr o fudd eu hymddygiad troseddol. Yn ystod y galw am syniadau yn y prosiect 13eg Raglen Diwygio'r Gyfraith, awgrymodd Comisiwn y Gyfraith ddiwygiad ar y gyfraith atafael a welir yn Neddf Enillion Troseddau 2002 (POCA). Dangoswyd llawer o gefnogaeth am y syniad hwn, gyda mwy na 200 o ymatebwyr yn cytuno y dylai'r Comisiwn y Gyfraith archwilio'r maes hwn o'r gyfraith. Fel canlyniad, mae Comisiwn y Gyfraith wedi cytuno gyda'r Swyddfa Gartref i adolygu'r gyfraith atafael, gyda'r bwriad o wella'r broses o wneud gorchmynion atafael, wrth sicrhau tegwch y gyfundrefn atafael, ac yn optimeiddio gorfodi gorchmynion atafael.
- 2.7 Mae wedi'i hawgrymu bod 'na broblemau brys gyda'r gyfraith, gan gynnwys iawndal afreolaidd o ddiodefwyr mewn achosion atafael; yr orfodaeth arferol o orchmynion atafael afrealistig; yr ysgogiadau aneffeithiol a sancsiynau'r gyfundrefn atafael; y cydweithio rhwng ymchwiliadau sifil a throseddol o dan POCA, cymhlethod y darpariaethau deddfwriaethol perthnasol a'r gyfraith achosion gysylltiedig; rôl ataliaeth a'r pwerau gorfodi annigonol y llysoedd ynadon a'r Llysoedd y Goron. Bydd y prosiect hwn yn gwerthuso'r problemau hyn a ffurfio cynigion am ddiwygio.
- 2.8 Mae gwaith ar y prosiect hwn wedi'i drefnu i ddechrau yn Awst 2018. Rydym yn disgwyl y gwaith i'w gwblhau mewn dwy flynedd.

ATAL GWYNGALCHU ARIAN

Ffynhonnell: Cyfeirnod Gweinidogol

Adran Arweiniol: Swyddfa Gartref

Cychwyn: Chwefror 2018

Ymgynghori arfaethedig: Mehefin 2018

Cwblhad arfaethedig: Erbyn diwedd 2018

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith

- 2.9 Mae darpariaethau atal gwyngalchu arian POCA yn eang iawn ac mae'n hanfodol i ddarparu dulliau er mwyn gadael busnesau barhau i weithredu. Y dull canolog o'r fath yw'r gyfundrefn ganiatâd dan Rhan 7 y POCA. Mae'r gyfundrefn hon yn

galluogibusnesau i ofyn am ganiatâd Uned Deallusrwydd Ariannol yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol (NCA) i barhau gyda'r trafod lle maent yn tybio bod gwyngalchu arian yn digwydd. Mae'r gyfundrefn ganiatâd hon yn ganolog i swyddogaeth y gyfundrefn atal gwyngalchu arian y DU.

- 2.10 Mae'r gyfundrefn ganiatâd yn darparu amddiffyniad i bob un o'r troseddau gwyngalchu arian pennaf. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu gofyn am ganiatâd y NCA ar ffurf adroddiad gweithgarwch amheus (SARs) wedi'i gwblhau gan swyddog enwebedig (gweithiwr mewn busnes wedi'i ddewis i gyflwyno SARs).
- 2.11 Mae'r gyfundrefn gyllidol gwrth-derfysgaeth yn Rhan 3 Deddf Terfysgaeth 2000 yn cynnwys cyfundrefn ganiatâd yn debyg i'r un a welir yn POCA. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar y gyfundrefn ganiatâd a welir yn POCA wrth fod yn ystyriol o'r effaith y gallai unrhyw argymhellion gael ar Ddeddf Terfysgaeth 2000.
- 2.12 Ymhlith y problemau gyda'r gyfraith gyfredol yw'r adrodd amddiffynnol, y nifer pur o SARs a gyflwynir i'r NCA, a'r gwerth deallusrwydd weddol isel sydd mewn nifer y SARs.
- 2.13 Byddwn yn cyhoeddi papur ymgynghori yn Mehefin, a chynnal cylch trafod yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus yn Gorffennaf. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein adroddiad terfynol cyn diwedd 2018.

TRIBIWNLYSOEDD DATGANOLEDIG CYMRU

Ffynhonnell: Cyfeirnod Gweinidogol

Adran Arweiniol: Llywodraeth Cymru

Cychwyn: Heb ei benderfynu

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith

- 2.14 Gwnaethom nodi yn ein dogfen 13^{eg}Raglen er nad oedd ein trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru wedi arwain at brosiect penodol ar gyfer diwygio'r gyfraith yng Nghymru yn unig hyd yma, rydym dal wedi'n hymrwymo i gynnwys o leiaf un prosiect o'r fath pan fyddai maes priodol o waith yn dod i'r amlwg.
- 2.15 Ers hynny, rydym wedi cynnal trafodaethau cynhyrchiol iawn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Er nad yw hi wedi'i chytuno yn swyddogol, rydym yn deall bod cefnogaeth sylweddol yng Nghaerdydd i'r Comisiwn archwilio materion yn gysylltiedig â thribiwnlysoedd datganoledig. Byddai prosiect o'r fath yn archwilio, yn benodol, yr angen am Bil Tribiwnlysoedd (Cymru) newydd, wedi'i llunio i reoleiddio gweithredu un system ar gyfer tribiwnlysoedd yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn gam naturiol yn dilyn y ddarpariaeth a wnaethpwyd ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig yn Neddf Cymru 2017, byddai'n ystyried materion gan gynnwys terfyn system tribiwnlysoedd Cymru, a'r rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Byddai'n hefyd yn caniatáu ystyried y dull a'r proses yn gysylltiedig â phenodiadau barnwrol, yr awdurdod i wneud a safoni rheolau gweithredu, a'r prosesau ar gyfer apeliadau a chwynion.

- 2.16 Yn amodl ar gytundeb rhwng Gweinidogion Cymru a'r Comisiwn, rydym yn gobeithio cychwyn y gwaith hwn yn hwyr yn 2018 neu'n gynnar yn 2019, ac yn adrodd o fewn 12 mis.

CYFRAITH ETHOLIADOL

Ffynhonnell: 11^{eg} Raglen Diwygio'r Gyfraith

Adran Arweiniol: Swyddfa'r Cabinet

Cychwyn: Gorffennaf 2011

Ymgynghoriad cwmpasu: Mehefin-Medi 2012

Ymgynghori: Rhagfyr 2014-Mawrth 2015

Cwblhad arfaethedig: Yn gynnar yn 2019

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith a deddfwriaeth ddrafft

- 2.17 Mae cyfraith etholiadol y DU yn ymestyn dros 17 statud a 30 set o reoliadau. Mae wedi dod yn fwyfwy cymhleth ac yn dameidiog; mae'n anhygyrch, ac yn anodd i'w gweithredu a diweddarau. Mae' llawer o'r gyfraith â gwreiddiau iaith ac ymarfer y 19^{eg} ganrif, ac nid yw'n adlewyrchu gweinyddiaeth etholiadol fodern.
- 2.18 Mae'r prosiect diwygio'r gyfraith etholiadol yn rhan o'r 11^{eg} Raglen Diwygio'r Gyfraith Comisiwn Cyfraith Cymru a Lloegr a gyhoeddwyd ar 19 Gorffennaf 2011. Lanswyd fel prosiect teir-ran gyda'r Comisiwn Cyfraith yr Alban a Chomisiwn Cyfraith Gogledd Iwerddon.
- 2.19 Dau nod y prosiect hwn yw sicrhau, yn gyntaf, bod cyfreithiau etholiadol yn cael eu cyflwyno o fewn fframwaith rhesymegol, modern a deddfwriaethol, yn llywodraethu pob etholiad a refferendwm o dan statud. Yn ail, dylai'r gyfraith yn llywodraethu'r rheolaeth o etholiadau a refferenda fod yn fodern, yn syml, ac yn addas i'r diben.
- 2.20 Cyhoeddodd Comisiynwyr Cyfraith cydadroddiad interim ar 4 Chwefror 2016, yn argymhell y canlynol: dylai'r proses am wrthwynebu etholiadau gael ei foderneiddio, yn ei gwneud yn haws i bartïon ei ddeall a'i ddefnyddio a dylai barnwyr gael yr awdurdod i gyfyngu costau posibl i wrthwynebwyr. Dylai troseddau etholiadol cyfredol gael eu diweddarau yn ei gwneud yn haws i'r etholwyr, swyddogion a'r erlynwyr ddeall y bydd y dedfryd uchaf am droseddau etholiadol difrifol yn cael ei chynyddu i ddeng mlynedd.
- 2.21 Wedi adolygu ein hadroddiad interim, datganodd Llywodraeth y DU yn gynnar yn 2016 fod y gwaith ynglŷn â gadael yr Undeb Ewropeaidd, a'r galw digyffelyb ar amser seneddol, yn golygu na fydd gallu am fil etholiadol i fwrw ymlaen gydag argymhellion bil penodol.
- 2.22 Er hynny, rydym yn gweithio gyda Swyddfa'r Cabinet ar ffyrdd am weithredu ein hargymhellion nad ydynt yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys dehongliadau statudol i symleiddio a chasglu'r rheolau ymddwyn amrywiol yn gysylltiedig â digwyddiadau etholiadol yn Lloegr a'r Heddlu a'r etholiadau Comisiynydd

Troseddol yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn mynd yn ei flaen a gobeithiwn y byddwn ni'n gallu adrodd yn gynnar yn 2019.

DOGFENNAU SY'N CAEL EU CWBLHAU Â LLOFNOD ELECTRONIG

Ffynhonnell: 13^{eg} Raglen Diwygio'r Gyfraith
Adran Arweiniol: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Cychwyn: Ionawr 2018
Cwblhad arfaethedig: Gwanwyn 2019
Canlyniad: I'w benderfynu ar ôl ymgynghori

- 2.23 Mae'r rhan fwyaf o fusnesau modern wedi croesawu technoleg i gynnal trafodiadau arlein ac yn electronig. Er hynny, dywedwyd wrthym fod yr ansicrwydd ynglŷn â dogfennau sy'n cael eu cwblhau â llofnod electronig yn atal rhai busnesau rhag symud tuag at drafodiadau electronig llawn, a allai fod yn gyflymach ac yn fwy effeithlon.
- 2.24 Awgryma adolygiad o egwyddorion cyffredinol a'r gyfratid achosion gysylltiedig fod cyfraith Lloegr yn ddigon hyblyg i gymodi llofnodion electronig. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r casgliad nodyn ymarfer 2016 a roddwyd gan gyd-weithgor Pwyllgor Cyfraith y Cwmni Cymdeithas Cyfreithwyr a Phwyllgorau'r Gyfraith a'r Gyfraith Cyllidol y Cwmni Cymdeithas Llundain, a ddatblygwyd i helpu'r pleidiau a ddymunodd lofnodi cytundebau masnachol gan ddefnyddio llofnod electronig. Er hynny, mae rhai rhanddeiliaid wedi awgrymu y byddai'n fuddiol i'r mater hwn gael ei egluro a'i gadarnhau.
- 2.25 Mae rhanddeiliaid hefyd wedi hysbysu Comisiwn y Gyfraith bod 'na pryderon eraill ynglŷn â dogfennau sy'n cael eu cwblhau â llofnod electronig sydd angen cael eu hystyried. Er enghraifft, mae rhanddeiliaid wedi awgrymu y dylem ystyried materion ynglŷn â llofnodion electronig ar weithredoedd, gan gynnwys y gofyn bod rhaid i weithredoedd gael eu tystio a'u cyflwyno. Rydym hefyd wedi cael ein cyfeirio at oblygiadau R (cais Mercury Tax Group Ltd) v CThEM [2008] EWHC 2721 (Admin).
- 2.26 Yn yr amgylchiadau hyn, pwrpas y prosiect yw ystyried unrhyw ansicrwydd ynglŷn â ffurfioldeb llofnodion electronig ac i sicrhau bod y gyfraith yn llywodraethu'r ffurfioldebau hyn yn ddigon sicr ac hyblyg i'w aros yn gystadleuol mewn awyrgylch ar ôl Brexit. Mae'r prosiect yn gysylltiedig â'n prosiect arfaethedig ar gontractau call, a fydd Comisiwn y Gyfraith yn cychwyn arno yn 2018.

STRWYTHURAU GWRANDO'R GYFRAITH CYFLOGAETH

Ffynhonnell: 13^{eg} Raglen Diwygio'r Gyfraith
Adran Arweiniol: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Cychwyn: Ebrill 2018
Ymgynghori arfaethedig: Gorffennaf 2018
Cwblhad arfaethedig: Diwedd 2018
Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith

- 2.27 Mae'r prosiect hwn yn ffurfio rhan o'n 13^{eg}Raglen Diwygio'r Gyfraith. Mae'n cynnwys adolygiad o awdurdodaeth y tribiwnlys cyflogaeth, tribiwnlys apelau cyflogaeth a'r llysoedd sifil mewn materion cyflogaeth a gwahaniaethu ac yn gwneud argymhellion ar gyfer diwygio. Yn benodol, bydd y prosiect yn ystyried materion a godwyd gan:
- (1) yr awdurdodaeth gyfrannol rhwng llysoedd sifil a thribiwnlysoedd yn gysylltiedig â rhai materion cyflogaeth a gwahaniaethu, gan gynnwys tâl cyfartal;
 - (2) y cyfyngiadau ar awdurdodaeth gyfredol y tribiwnlys cyflogaeth;
 - (3) awdurdodaeth cyfyngedig y llys sirol ynglŷn â rhai mathau o hawliadau gwahaniaethu; a'r
 - (4) ymdrin ag anghydfodau cyflogaeth mewn llysoedd sifil.
- 2.28 Mae'r Adolygiad o Strwythur y Llysoedd Sifil, a arweiniwyd gan Briggs LJ, yn nodi bod "maes annifyr" o awdurdodaeth gyfrannol a chyfyngedig yn bodoli ym meysydd y cyfreithiau gwahaniaethu a chyflogaeth, sydd wedi creu materion wrth diffinio'r ffin rhwng y llysoedd a System y Tribiwnlys Cyflogaeth (y Tribiwnlys Cyflogaeth a Thribiwnlys Apelau Cyflogaeth). Mae arbenigwyr, barnwyr ac ymarferwyr y gyfraith cyflogaeth yn ymwybodol iawn o'r materion hyn; gallant achosi oedi yn ogystal ag atal achosion gael eu penderfynu gan y barnwyr a fyddai'n delio â nhw.
- 2.29 Bydd y prosiect yn ceisio datrys y problemau yn sgil ddyraniad awdurdodaeth yn y maes hwn, yn ogystal ag ymchwilio i'r cyfyngiadau dyddiedig, sydd i ryw raddau'n ormes ar awdurdodaeth y Tribiwnlys Cyflogaeth.
- 2.30 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Adran Busnes, Ynni, Arloesi a Sgiliau (BEIS) wrthi'n diwygio system y Tribiwnlys Cyflogaeth fel rhan o broses moderneiddio system y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, ac maent wedi nodi nad oes unrhyw gynlluniau i ystyried newid strwythurol radical. Bydd y prosiect hwn yn gweithio o fewn y ffiniau a sefydlwyd gan sefyllfa'r Llywodraeth, ac yn ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â phroblemau awdurdodaethol System y Tribiwnlys Cyflogaeth, heb unrhyw ailstrwythuro sylweddol.

YSWIRIO DIDDORDEBAU

Ffynhonnell: 9^{fed} Raglen Diwygio'r Gyfraith

Adran Arweiniol: Trysorls EM

Cychwyn: Ionawr 2006 (dechreuad prosiect cyfraith cytundebau yswiriant)

Cwblhad arfaethedig: Diwedd 2018

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith a Bil drafft

- 2.31 Rydym ni, Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr, a'r Comisiwn Cyfraith yr Alban wedi bod yn gweithio ar adolygiad ar y cyd o'r gyfraith cytundebau yswiriant ers 2006. Hyd at hyn, mae ein gwaith wedi arwain at Deddf Yswiriant Defnyddwyr (Dadlennu a Chynrychiolaeth) 2012 a'r Deddf Yswiriant 2015. Y maes olaf am gael ei adolygu yn ein prosiect yw'r gyfraith yn ymwneud ag yswirio diddordebau.
- 2.32 Yn syml, mae'r gofyn am yswirio diddordebau, ac er mwyn i'r gytundeb yswiriant fod yn ddilys, yn golygu byddai'n rhaid i'r unigolyn sy'n meddu ar yr yswiriant gael budd o gadwraeth ar destun yswiriant, neu i ddioddef anfantais os caiff ei golli neu ei ddifrodi.
- 2.33 Mae rhanddeiliaid wedi ein hysbysu bod y gyfraith gyfredol, yn enwedig ar gyfer aswiriannau einioes megis aswiriant iechyd a damweingarwch, yn hynafol a rhy gyfyngedig. Mae'n atal, er enghraifft, rhai aswiriannau cymdeithasol defnyddiol ar gyfer plant neu gydbreswylwyr.
- 2.34 Rydym wedi ymgynghori ar gynigion polisi sawl gwaith; yn 2008, 2011 a 2015. Gwnaethom ymgynghori ar gymalau drafft yn 2016. Er bod y mwyafrif o ymgyngoreion yn cytuno gyda'r cyfeiriad gyffredinol ein cynigion, mae pryderon wedi'i mynegi ynglŷn â rhai o'r manylion, ac yn benodol am eu rhyngweithio yn y farchnad gyfredol. Rydym yn ymrwymedig at weithio gyda rhanddeiliaid i ddatrys y materion hyn.
- 2.35 Mae'r prosiect hwn wedi bod ar stop oherwydd blaenoriaethau eraill o fewn y Comisiwn, ond rydym yn bwriadu cyhoeddi drafft diwygiedig o'r bil yn hanner cyntaf 2018.

COFRESTRU TIR

Ffynhonnell: 12^{fed} Raglen Diwygio'r Gyfraith

Adran Arweiniol: Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Diwydiannol a'r Cofrestrfa Tir

Cychwyn: Yn gynnar yn 2015

Cwblhad arfaethedig: Haf 2018

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith a Bil drafft

- 2.36 Dechreuodd y prosiect hwn, a deilliwyd o'n 12^{fed} Raglen Diwygio'r Gyfraith, yng Ngwanwyn 2015. Dyluniwyd er mwyn diweddarau'r gyfraith gyfredol sy'n llywodraethu

cofrestru tir sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Cofrestru Tir 2002, yn sgil profiad ei gweithrediad ers iddi ddod i rym ym mis Hydref 2003.

- 2.37 Mae'r gyfundrefn cofrestru tir o bwysigrwydd enfawr a chynyddol. Mae dros 85 y cant o'r tir yng Nghymru a Lloegr wedi'i gofrestru, gyda Chofrestrfa Tir EM yn cynnal dros 25 miliwn o deitlau. Gall sefyllfaoedd ac anghydfodau sy'n defnyddio'r gyfundrefn cofrestriadau tir fod yn gymhleth ac yn gofyn am gyngor arbenigol. Mae ansicrwydd yn y gyfundrefn yn ei gwneud yn anodd cyngori cleientiaid am eu hawliau, a gall hyn gymell ymglyfreithiad ac yn cynyddu costau i berchnogion tir.
- 2.38 Mae yna dystiolaeth bod angen adolygu neu ddarparu eglurhad ar rai meysydd y gyfraith bresennol. Gwnaethom ymgynghori rhwng Mawrth a Mehefin 2016, ac mae ein gwaith hyd yma wedi datgelu amrywiaeth o faterion sy'n aml yn dechnegol iawn a chyda goblygiadau pwysig i'r rheiny sy'n berchnogion tir (p'un a yw'r tir yn gartref, yn fusnes neu'n fuddsoddiad), rheiny â diddordeb mewn tir (gan gynnwys darparwyr morgeisi), a Chofrestrfa Tir EM. Felly mae'r prosiect hwn yn cynnwys adolygiad eang o Ddeddf 2002, gyda'r bwriad o ddiwygio'r rhannau y gellid eu gwella. Yn benodol, mae'n archwilio ystent sicrwydd teitl y Gofrestrfa Tir, cywiro ac addasu'r gofrestr, ac effaith twyll teitl cofrestredig. Mae'n hefyd yn ailarchwilio'r fframwaith cyfreithiol am drawsgludiad electronig.
- 2.39 Disgwylir cwblhau'r prosiect hwn yn ystod Haf 2018, pan fyddwn yn cyhoeddi ein hargymhellion diwygio'r gyfraith a Bil drafft.

MAKING LAND WORK – EASEMENTS, COVENANTS AND PROFITS À PRENDRE

Adran Arweiniol: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Canlyniad: Cefnogaeth Gweithredu

- 2.40 Cyhoeddwyd ein adroddiad, Making Land Work, yn Mehefin 2011 yn archwilio'r gyfraith gyffredinol yn llywodraethu'r canlynol:
- (1) Hawddfreintiau (Easements) – hawliau wedi'u mwynhau gan un perchen tir i ddefnyddio tir rhywun arall, megis hawliau tramwy.
 - (2) Cyfamodau (Covenants) – addewidion neu oblygiadau i wneud neu beidio â gwneud rhywbeth ar dir eich hunan, megis trwsio ffens derfyn neu i ddefnyddio'r tir ar gyfer cartrefi preiffat yn unig.
 - (3) Proffid à prendre (Profits à Prendre) – hawliau i gymryd pethau sy'n tyfu yn naturiol o'r tir, megis hawliau pysgota.
- 2.41 Mae'r hawliau hyn o bwysigrwydd mawr ymarferol i berchnogion tir a gallant fod yn hanfodol at ddefnyddio a mwynhau'r eiddo. Edrychom yn agos at nodweddion y hawliau

hyn, sut maent yn cael eu creu, sut mae'r hawliau yn dod yn i ben a sut allant gael eu newid.

- 2.42 Argymhellodd ein adroddiad ddiwygiadau i foderneiddio a symleiddio'r gyfraith yn ategu'r hawliau hyn, i sicrhau ei bod yn addas i'r diben yn yr 21ain ganrif gyda system gofrestru fodern. Byddai'r argymhellion yn cael gwared ag anghysondebau ac anawsterau yn y gyfraith gyfredol, yn arbed amser ac arian trwy ei gwneud yn fwy hygyrch a haws i'r rhai sy'n defnyddio a dibynnu ar y buddion hyn y mwyaf; perchnogion tai, busnesau, benthyccwyr morgeisi a'r rhai sy'n rhan o'r broses drawgludiad.
- 2.43 Byddent yn rhoi hawliau cyfreithiol newydd i berchnogion tir a fyddai'n eu galluogi i reoli eu perthnasau gyda'u cymdogion yn well ac yn hybu trafodiadau tir. Ar ben hynny, byddai'r diwygiadau yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ddatblygwyr wrth adeiladu ystadau lle y byddai perchnogion a defnyddwyr lluosog.
- 2.44 Datganodd y Llywodraeth yn ei Phapur Gwyn Tai¹wedi'i gyhoeddi ar 7 Chwefror 2017 y canlynol:

*"Mae'r Llywodraeth hefyd yn bwriadu symleiddio'r gyfundrefn gyfamodi gyfyngol bresennol drwy weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith am ddiwygiad a bydd yn cyhoeddi Bil drafft i'w ymgynghori fel a ddatganwyd yn Araith y Frenhines."*²

- 2.45 Mae Bil drafft yn cael ei baratoi i'w gyhoeddi ac rydym yn cynorthwyo â'r Llywodraeth i'w baratoi.

¹ Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Fixing our broken housing market (Cm 9352), Atodiad A para 35, ar gael yn https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/590043/Fixing_our_broken_housing_market_-_housing_white_paper.pdf.

² Roedd y Llywodraeth eisoes wedi cyhoeddi, ac wedi'i wneud fel canlyniad, ei bod yn bwriadu dod â chynigion ymlaen mewn Bil Cyfraith Eiddo Drafft yn ymateb i argymhellion y Comisiwn: Araith y Frenhines 2016: nodiadau cefndirol (18 Mai 2016), tudalen 61, ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications/queens-speech-2016-background-briefing-notes>; Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Mynd i afael ag ymarfer annheg yn y farchnad lesddaliad, Crynodeb o ymatebion ymgynghori ac ymateb y Llywodraeth (Rhagfyr 2017), para 36, ar gael yn https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/670204/Tackling_Unfair_Practices_-_gov_response.pdf

CAMYMDDWYN MEWN SWYDD GYHOEDDUS

Ffynhonnell: 11^{eg} Raglen Diwygio'r Gyfraith
Adran Arweiniol: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Cychwyn: Haf 2014
Ymgynghoriad cyntaf: Ionawr-Mawrth 2016
Ail ymgynghoriad: Medi 2016-Ionawr 2017
Cwblhad arfaethedig: Hydref 2018
Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith

- 2.46 Roedd adolygiad o drosedd camymddwyn mewn swydd gyhoeddus wedi'i gynnwys yn ein 11eg Raglen Diwygio'r Gyfraith.
- 2.47 Mae camymddwyn mewn swydd gyhoeddus yn drosedd cyfraith cyffredin ond nid oes ddiffiniad cynhwysfawr. O ganlyniad mae ffiniau'r drosedd yn aneglur ac er mai ychydig iawn o erlyniadau sydd bob blwyddyn, mae nifer anghymesur uchel o'r rhain yn destun apêl. Ymhlith y meysydd o anhawster a nodwyd mewn apeliadau diweddar mae'r ffaith bod elfen bai y drosedd yn amrywio yn ôl yr ymddygiad sy'n destun erlyniad ac mae yna ansicrwydd o ran atebolrwydd unigolion preifat sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus.
- 2.48 Mae'r prosiect hwn wedi ceisio symleiddio, egluro a chyfundrefnu trosedd cyfraith gyffredin. Cyhoeddom bapur materion yn Ionawr 2016, a phapur ymgynghori bellach ym Medi 2016. Yn ein papur ymgynghori, awgrymom y gallai trosedd, neu troseddau, diwygiedig ystyried un neu ddau o'r camwriau canlynol: tor-dyletswydd yn arwain at risg o niwed difrifol; ac ymddygiad llygredig - camddefnyddio'r sefyllfa am fantais personol neu i achosi newid i un arall. Rydym wrthi yn gweithio tuag at gyhoeddi adroddiad terfynol gydag argymhellion ar gyfer diwygio erbyn Hydref 2018.

CYFATHREBU SARHAUS AR-LEIN

Ffynhonnell: Cyfeirnod Gweinidogol
Adran Arweiniol: Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon
Cychwyn: Ebrill 2018
Cwblhad arfaethedig (rhan un): Hydref 2018
Canlyniad (rhan un): Adolygiad o'r gyfraith gyfredol

- 2.49 Fel rhan o'n 13^{eg} Raglen broses ymgynghori, gofynnem i ymgynghoreion am eu barn ar Comisiwn y Gyfraith yn ymgymryd â'r gwaith i ddiwygio'r gyfraith am gyfathrebu sarhaus ar-lein. Ysgrifennodd dros 200 o ymgynghoreion atom am y mater hwn, gyda'r mwyafrif ohonynt o blaid diwygio'r gyfraith o ryw fath.

- 2.50 Gofynnodd yr Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon i'r Comisiwn y Gyfraith adolygu'r gyfraith yn ymwneud â chyfathrebu sarhaus mewn dwy ran. Yn rhan 1, bydd y Comisiwn yn cymryd 6 mis i ddadansoddi'r fframwaith am deddfwriaeth cyfathrebu sarhaus fel y mae'n gymwys i gyfathrebu ar-lein; bydd yn gosod effaith unrhyw ddiffygion a nodir yn y fframwaith cyfreithiol cyfredol, gan gynnwys penderfynu a yw'r gyfraith gyfredol yn ddigon effeithiol yn sicrhau mai beth sy'n anghyfreithlon all-lein hefyd yn anghyfreithlon ar-lein.
- 2.51 Os bydd diffygion yn y gyfraith gyfredol yn cael eu nodi, rydym wedi cytuno i wneud gwaith pellach yn edrych ar opsiynau posibl am ddiwygio. Bydd cylch gorchwyl yr ail ran yn cael ei gytuno arno ar ôl i'r rhan gyntaf gael ei chwblhau.

CYFRAITH CYNLLUNIO YNG NGHYMRU

Ffynhonnell: 12^{fed} Raglen Diwygio'r Gyfraith
 Adran Arweiniol: Llywodraeth Cymru
 Cychwyn: Haf 2014
 Ymgynghoriad cwmpasu: Mehefin-Medi 2016
 Ymgynghori: Tachwedd 2017-Mawrth 2018
 Cwblhad arfaethedig: Hydref 2018
 Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith

- 2.52 Mae'r Gyfraith Cynllunio yng Nghymru a Lloegr yn gymhleth ac, mewn rhai mannau, yn anodd i'w deall. Nid yw'r deddfwriaeth wedi'i chyfuno ers Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ac mae'r datblygiad deddfwriaethol wedi bod yn dameidiog ers hynny. Yn bellach, mae'r gwahaniaeth gynyddol rhwng y gyfraith yn Lloegr a'r gyfraith yng Nghymru wedi ei gwneud yn anodd i gadarnhau beth yn union yw cyfraith cynllunio yng Nghymru.
- 2.53 Fel rhan o'n 12^{fed} Raglen Diwygio'r Gyfraith, gofynnwyd Comisiwn y Gyfraith gan Llywodraeth Cymru i archwilio gweithrediad y system rheoli datblygu. Ni welsom fod angen am newidiadau polisi mawr pellach yn y maes hwn, ond mae'n amlwg bod angen i'r Gyfraith Cynllunio yng Nghymru gael ei symleiddio a'i moderneiddio.
- 2.54 Mae Llywodraeth Cymru wrthi yn paratoi Bil Cydgrynhoi Cynllunio newydd, yn cynnwys llawer o ddeunydd Deddf 1990 a nifer o'r Deddfau eraill a ychwanegwyd iddi. Mae'r Comisiwn yn gweithio ar ddiwygiadau technegol, i wella sut mae'r system yn gweithio yn ymarferol.
- 2.55 Cyflwynom bapur cwmpasu yn Mehefin 2016, yn gosod ein cynigion rhagarweiniol, a chyhoeddi Papur Ymgynghori llawn yn Tachwedd 2017, yn gosod ein casgliadau ynglŷn â chwmpas y prosiect ac yn amlinellu ein cynigion am ddiwygiadau technegol. Parhaodd y proses ymgynghori am dri mis, yn dod i ben ar 1 Mawrth 2018.
- 2.56 Rydym wrthi yn dadansoddi'r ymatebion, a byddwn yn cyflwyno adroddiad terfynol i Lywodraeth Cymru yn hwyrach yn y flwyddyn. Bydd yr adroddiad hwn yn creu Côt Cynllunio newydd.

DIOGELU DATA SWYDDOGOL

Ffynhonnell: Cyfeirnod Gweinidogol

Adran Arweiniol: Swyddfa'r Cabinet

Cychwyn: Cwefror 2016

Ymgynghori: Chwefror-Mai 2017

Cwblhad arfaethedig: Haf 2018

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith

- 2.57 Yn 2015, gofynnodd Swyddfa'r Cabinet, ar ran y Llywodraeth, i'r Comisiwn y Gyfraith adolygu effeithiolrwydd darpariaethau'r gyfraith droseddwr sy'n diogelu gwybodaeth swyddogol am ddatgeliad anawdurdodedig. Cychwynodd ein gwaith yn 2016. Bu'r ffocws, yn bennaf, ar Ddeddfau Cyfrinachau Swyddogol 1911 – 1989. Rydym hefyd wedi dadansoddi nifer o droseddau eraill (dros 120) sy'n bodoli i droseddu datgelu gwybodaeth heb awdurdod. Yn ogystal â hyn, rydym wedi archwilio'r materion a allai godi mewn achosion ymchwilio ac erlyn dan y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol. Yn olaf, rydym wedi archwilio'r ddadl y gellir gwneud o blaid cyflwyno amddiffyniad lles y cyhoedd statudol i'r troseddau datgelu gwybodaeth heb awdurdod sy'n cael ei gynnwys yn y Ndedf Cyfrinachau Swyddogol 1989.
- 2.58 Cyhoeddom papur ymgynghori yn Chwefror 2017, a chynnal ymgynghoriad a barhawyd tan Fai 2017. Denodd y prosiect lawer iawn o ddiddordeb, a derbyniom dros 1500 o ymatebion.
- 2.59 Rydym wrthi yn dadansoddi ymatebion a byddwn yn adrodd nôl am ein hargymhellion terfynol yn hwyr yn Haf neu Wanwyn 2018.

LESDDALIAD PRESWYL A CHYDRADD-DDALIAD

Ffynhonnell: 13⁹⁹ Raglen Diwygio'r Gyfraith

Adran Arweiniol: Gweinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol

Cychwyn: Rhagfyr 2017

Cwblhad arfaethedig: Mawrth 2020

Canlyniad: I'w benderfynu ar ôl ymgynghori

- 2.60 Yn Lloegr, mae eiddo fel arfer yn cael eu berchen naill ai fel rhai rhydd-ddaliad neu lesddaliad. Mae lesddaliad yn fath o berchnogaeth lle bydd y person yn berchen ar eiddo am nifer penodol o flynyddoedd (fel rheol, 99 neu 125 mlynedd) ar les gan y landlord, sy'n berchen ar y rhydd-ddaliad. Mae'r mwyafrif o fflatiau yn berchnogaeth lesddaliad, ond yn y blynyddoedd diwethaf mae lesddaliad wedi cael ei ddefnyddio'n fwy ar gyfer tai newydd.

- 2.61 Amcangyfrifir bod o leiaf 4 miliwn o eiddo lesddaliad yn Lloegr yn unig. Er hynny, dywedwyd wrthym fod y gyfraith ynghylch lesddaliad yn bell o fod yn foddhaol.
- 2.62 Datganodd y Llywodraeth fod gan lesddaliad "gormod o broblemau yn cynnwys costau anghyfartal i ymestyn prydlesau; rheolaeth eiddo o safon gwael; a'r proses gwerthu sy'n araf ac yn gostus". Mae ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar ein 13^{eg}Raglen Diwygio'r Gyfraith hefyd wedi nodi nifer o broblemau gyda chyfraith lesddaliad preswyl.
- 2.63 Rydym felly wedi cael y dasg o wella dewis defnyddwyr, ac yn darparu mwy o degwch ac eglurder ar gyfer prydleswyr.
- 2.64 Bydd ein prosiect, yn y lle cyntaf, yn ystyried dau fater:
- rhyddfrefinio lesddaliad; a
 - chydradd-ddaliad, i ddarparu am ffurf arall o berchnogaeth na les-ddaliad preswyl.
- 2.65 Roeddem eisoes wedi trafod gyda'r Llywodraeth y posibiliad o gymryd rhan mewn adolygiad am reoleiddio asiantaethau rheoli. Yn dilyn y galw am dystiolaeth gan Gweinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar y pwnc, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu bwrw ymlaen gyda'r gwaith am reoleiddio asiantiaid rheoli, ar y cyd â rheoleiddio asiantiaid gosod, drwy Gweithgor.
- 2.66 Mae'n bosib y bydd ein prosiect yn cael ei ehangu i ystyried pryderon eraill gyda phrydlesau.

Lesddaliad

- 2.67 Bydd ein prosiect am ryddfrefinio lesddaliad yn cynnwys adolygiad am hawliau'r prydleswyr i:
- brynu'r rhydd-ddaliad eu tŷ;
 - gymryd rhan, gyda phrydleswyr eraill, mewn prynu rhydd-ddaliad grŵp o flatiau; ac
 - estyn prydles eu tŷ neu'r fflat.
- 2.68 Gwnaeth ymatebion i'n 13^{eg}Raglen ymgynghori feirniadu deddfwriaeth gyfredol am fod yn gymhleth, yn anghyson ac yn gostus.
- 2.69 Byddwn ni'n adolygu'r proses ryddfrefinio a'r dull gweithredu prisiad i wneud prisiad yn symlach, yn decach ac yn rhatach. Byddwn ni'n cyhoeddi papur ymgynghori yn hwyrach yn y flwyddyn.

Cydradd-ddaliad

- 2.70 Cyflwynwyd cydradd-ddaliad yn 2002 fel ffordd newydd o berchen ar eiddo yn Lloegr a Chymru. Mae'n golygu bod y person yn gallu perchen ar rydd-ddaliad eu heiddo eu hunain (megis fflat) o fewn adeilad neu ddatblygiad a dod yn aelod o "cymdeithas cydradd-ddaliad" sy'n perchen a rheoli'r ardaloedd a rennir.

- 2.71 Drwy alluogi perchnogaeth rydd-ddaliol o flatiau o fewn bloc preswyl fflatiau, mae cydradd-ddaliad yn darparu dewis arall na les-ddaliad. Gall cydradd-ddaliad fod yr un mor gymwys mewn cyd-destun masnachol, er enghraifft i reoli cysylltiadau rhwng siopau unigol mewn parc manwerthu neu swyddfeydd mewn bloc swyddfeydd.
- 2.72 Mae ychydig iawn o gydradd-ddeiliad wedi'u creu ers i'r gyfraith gyfredol ddod i rym. Dywedodd ymgynghoreion y 13^{eg} Raglen wrthym fod nifer o faterion o fewn y model cydradd-ddaliad presennol a allai fod yn ei gwneud yn anfanteisiol i berchnogion tai, datblygwyr, benthycwyr morgeisi ac eraill ar draws y sector eiddo ehangach.
- 2.73 Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi eu bod am adfywio cydradd-ddaliad. Bydd ein prosiect felly yn edrych ar pam nad yw cydradd-ddaliad wedi bod yn boblogaidd, a pha newidiadau allai gael eu gwneud i'r gyfraith gyfredol er mwyn ei gwneud yn fath o berchnogaeth sy'n fanteisiol ac yn ymarferol. Gwnaethom gyhoeddi galw am dystiolaeth ar 22 Chwefror 2018, a byddwn yn ymgynghori ar gynigion am ddiwygio yn hwyrach yn y flwyddyn.

GWARANTAU CHWILIO

Ffynhonnell: Cyfeirnod Gweinidogol

Adran Arweiniol: Swyddfa Gartref

Cychwyn: Rhagfyr 2016

Ymgynghori: Mai 2018

Cwblhad arfaethedig: Diwedd 2018

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith

- 2.74 Dechreuom weithio ar y prosiect hwn ar gais y Swyddfa Gartref yn Rhagfyr 2016.
- 2.75 Digwyddodd hyn yn dilyn sylwadau a wnaethpwyd gan aelodau uwch y farnwriaeth yn awgrymu bod y gyfraith yn llywodraethu gwarantau chwilio mewn archwiliadau troseddol yn rhy gymhleth, ansicr ac yn agored i gael ei herio yn fwy. Tystir hyn gan y nifer o achosion mewn blynyddoedd diweddar lle mae gwarantau chwilio wedi'u herio a'u dileu ar adolygiad barnwrol; mae tri deg o adolygiadau barnwrol wedi bod yn gysylltiedig â gwarantau chwilio ers 2009, a'r rhain mewn achosion a adroddwyd yn unig.
- 2.76 Ein bwriad ni yw ystyried ffyrdd lle gall y gyfraith gwarantau chwilio gael ei symleiddio, eglurhau a rhesymoli, er mwyn lleihau'r nifer o wallau a heriau ac i gynorthwyo â'r rhai sy'n ymgeisio am warant a'r rhai sy'n rhoi gwarant yn deall a defnyddio'r system.
- 2.77 Cyhoeddom bapur ymgynghori yn Mai 2018, a byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus tan Orffennaf. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein hadroddiad terfynol a'r argymhellio erbyn diwedd 2018.

Y CÔD DEDFRYDU

Ffynhonnell: 12^{fed} Raglen Diwygio'r Gyfraith

Adran Arweiniol: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Cychwyn: Ionawr 2015

Ymgynghoriad cyntaf: Gorffennaf-Awst 2015

Ail ymgynghoriad: Gorffennaf 2017-Ionawr 2018

Ymgynghoriad atodol: Mawrth-Ebrill 2018

Cwblhad arfaethedig: Hydref 2018

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith a Bil cydgrynhoi drafft

- 2.78 Mae'r gyfraith ar ddedfrydu'n effeithio ar bob achos troseddol, a chaiff ei ddefnyddio mewn cannoedd o filoedd o achosion. Ar hyn o bryd, mae diffyg cysondeb ac eglurdeb yn y gyfraith a gall fod yn anodd i ymarferwyr a'r llysoedd ddeall a gweithredu'r gyfraith.
- 2.79 Ein nod gyda'r prosiect hwn yw cyflwyno un statud dedfrydu a fydd yn gweithredu fel ffynhonnell gynhwysfawr ar gyfer y gyfraith ddedfrydu - y "Côd Dedfrydu". Byddai hyn yn helpu stopio dedfrydau anghyfreithlon ac arbed lan at £255 miliwn dros y degawd nesaf gan osgoi apelïadau di-angen a lleihau oediadau dedfrydu yn arafu'r system llyso.
- 2.80 Yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf, rydym ni, ar y cyd gyda'r Swyddfa Cwnsler Seneddol, wedi cynhyrchu Bil yn cyfuno gweithdrefn y gyfraith ddedfrydu. Gwnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus am ein cynigion a'r Bil drafft rhwng Gorffennaf 2017 ac Ionawr 2018. Rydym yn cynnal ymgynghoriad atodol am ein cynigion ar gyfer cydgrynhoi darpariaethau cyfiawnder ieuencid y Côd Dedfrydu yn Ebrill 2018.
- 2.81 Rydym yn disgwyl cyhoeddi ein adroddiad terfynol a Bil drafft yn hwyr yn 2018.

SYMLEIDDIO RHEOLAU MEWNFUDO

Ffynhonnell: 13^{eg} Raglen Diwygio'r Gyfraith

Adran Arweiniol: Swyddfa Gartref

Cychwyn: Ionawr 2018

Ymgynghori arfaethedig: Mehefin 2018

Cwblhad arfaethedig: Diwedd 2018

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith

- 2.82 Bydd y prosiect hwn, sy'n ffurfio rhan o'r 13^{eg}Raglen Diwygio'r Gyfraith, yn ystyried ffyrdd i symleiddio ac egluro'r Rheolau Mewnfudo.
- 2.83 Mae'r Rheolau Mewnfudo yn hanfodol o ran llunio sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu i'r system fewnfudo weithredu ar y cyfan, ac maent yn effeithio nifer fawr o unigolion sy'n

ceisio cael caniatád i ddod i mewn i'r DU neu i aros ynddi. Er hynny, cânt eu beirniadu i raddau helaeth am fod yn rhy hir, cymhleth ac yn anodd i'w defnyddio. Mae'r rheolau yn ymestyn i 1033 tudalen. Mae datganiadau o newidiadau i'r Rheolau yn gyson ac yn fanwl. Rhwng 2012 a 2016, er enghraifft, ac yn bennaf o ganlyniad cyflwyno system fewnfudo yn "seiliedig ar bwyntiau", fe gynyddodd maint y Rheolau hyd at 25%.

- 2.84 Awgrymwyd hefyd bod y Rheolau wedi'u drafftio'n wael. Mae'r system rhifo yn anghyson: yn ogystal â'r rhifo paragraffau hybrid cyfarwydd drwy fewnosod paragraffau newydd (ychwanegu "As" a "ABs" ac ati), mae sawl atodiad wedi eu cyflwyno gyda'u system rifo unigryw eu hunain.
- 2.85 Mae'r prosiect hwn hefyd yn cynnig cyfle i adolygu'r cydbwysedd rhwng y Rheolau a deunydd allanol sydd yn cynnwys cyfarwyddiadau neu gwybodaeth atodol, ac i geisio nodi'r achosion sylfaenol am hyd ormodol a chymhlethdod y Rheolau a gwneud argymhellion i'w gwella yn y dyfodol.
- 2.86 Ni fydd y prosiect hwn yn cynnwys unrhyw newidiadau polisi sylweddol neu deddfwriaeth, ond yn lle hynny bydd yn ceisio nodi'r egwyddorion er mwyn ailddrafftio'r Rheolau i'w gwneud yn symlach ac yn fwy hygyrch i'r defnyddwr.
- 2.87 Byddwn ni'n ymgynghori yn Ngwanwyn 2018 gyda'r bwriad o gyhoeddi adroddiad terfynol cyn diwedd y flwyddyn.

CONTRACTAU CALL

Ffynhonnell: 13⁹⁹ Raglen Diwygio'r Gyfraith
Adran Arweiniol: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Cychwyn: Haf 2018
Ymgynghori arfaethedig: I'w gadarnhau
Canlyniad: Ymgynghoriad cwmpasu

- 2.88 Mae llawer o sylw'r cyfryngau wedi bod yn ddiweddar ynglŷn â'r defnydd o "contractau call", yn enwedig rhai FinTech. Mae'r term "contractau call" yn cyfeirio at ddata a gofnodir mewn côd blockchain a lle gall cytundebau cyfreithiol gael eu creu yn awtomatig, neu yn rhannol o leiaf. Disgwylir i gontractau call gynyddu effeithiolrwydd mewn trafodiadau busnes ac awgrymir bydd y defnydd o dechnoleg blockchain yn cynyddu ymddiriedaeth a sicrwydd.
- 2.89 Mae'n bwysig i sicrhau bod llysoedd Lloegr yn parhau i fod yn ddewis cystadleuol i fusnesau. Mae yna ddadl gref felly i gael astudiaeth gwmpasu Comisiwn y Gyfraith yn adolygu fframwaith gyfreithiol a rheoliadol Lloegr. Pwrpas y prosiect hwn fyddai sicrhau bod y gyfraith yn ddigon sicr ac hyblyg i fod yn gymwys mewn cyd-destun byd-eang a digidol ac i bwysleisio unrhyw bynciau â diffyg eglurdeb neu sicrwydd.
- 2.90 Er enghraifft, ni ellir dileu neu ailysgrifennu data hanesyddol a gofnodir mewn cod blockchain. Er bod hyn fel arfer yn cael ei gyflwyno fel nodwedd fanteisiol o

blockchain,mae hefyd yn golygu y gallai fod yn anodd i ganolwr trydydd parti (fel llys) gywiro unrhyw gamgymeriadau ymddangosiadol, neu annhegwch yn y contract. Mae yna gwestiynau ynglŷn â sut fyddai'r nodwedd hon yn rhyngweithio â chysyniadau cyfraith contract fel telerau, neu gontractau goblygedig sydd wedi'u hystyried yn ddi-rym o'r cychwyn cyntaf.

GENI BABI AR RAN RHYWUN ARALL

Ffynhonnell: 13⁹⁹ RaglenDiwygio'r Gyfraith

Adran Arweiniol: Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cychwyn: Gwanwyn 2018

Cwblhad arfaethedig: Gwanwyn 2020 (heb Fil) neu Wanwyn 2021 (gyda Bil)

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith a Bil drafft

- 2.91 Mae benthg croth yn disgrifio'r sefyllfa lle mae merch yn geni plentyn ar ran person neu bobl eraill sydd, i bob pwrpas, yn bwriadu bod yn rhieni i'r plentyn. Fel rheol, mae'r rhieni a fwriadwyd yn ymrwymo i drefniant benthg croth oherwydd eu bod wedi wynebu problemau ffrwythlondeb neu'n methu beichiogi'n naturiol. Yn y DU, caiff y broses o fenthg croth ei lywodraethu gan Ddeddf Benthg Croth 1985 yn ogystal â rhai o ddarpariaethau'r Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 2008. Gall y rhieni a fwriadwyd feddu ar Gorchymyn Rhieni ar ôl genedigaeth y plentyn a anwyd i'r fam sy'n benthg croth er mwyn cael eu cydnabod fel rhieni cyfreithiol.
- 2.92 Mae'n debygol, er bod nifer yr achosion o blentyn yn cael ei eni o ganlyniad i drefniadau benthg croth i rieni a fwriadwyd sy'n byw yn y DU bob blwyddyn yn eu cannoedd yn hytrach na'r miloedd, mae'r nifer o bobl sy'n defnyddio trefniadau o'r fath wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf, a disgwylir i'r nifer hwn barhau i godi. Mae perthnasoedd un rhyw yn cael eu derbyn fwy fwy. yn sgil cyflwyno partneriaeth sifil ac ehangu hawliau priodi, ac yn un o nifer o ffactorau sy'n debygol o arwain at gynydd mewn nifer o blant sy'n cael eu geni o ganlyniad i drefniant benthg croth.
- 2.93 Yn achos perthynas dau ddyn, trefniant benthg croth yw'r unig ffordd ffurfiol o gael plentyn sy'n perthyn yn fiolegol i un o'r rhieni a fwriadwyd. Gallai benthg croth fod yn lwybr pwysig posib tuag at fagu plant yn achos pobl drawsryweddol hefyd. Mae'r gyfraith benthg croth yn ymdrin â materion a hawliau pwysig iawn i'r plant a'r oedolion sy'n rhan o drefniadau o'r fath: mae'r rhain yn cynnwys cwestiynau yn ymwneud â phwy yw'r rhieni ac atal camfanteisio ar blant ac eraill.
- 2.94 O ganlyniad, mae hyn wedi amlygu problemau sylweddol yn y gyfraith. Mae'r gyfraith wedi cael trafferth yn addasu i newidiadau mewn agweddau cymdeithasol sy'n newid a'r gawl cynyddol am drefniadau benthg croth, gan gynnwys trefniadau benthg croth tramor. Er enghraifft, mae'r llysoedd wedi cael trafferth yn gweithredu'r amodau statudol ar gyfer Gorchymyn Rhieni oherwydd bod y ffactor pwysicaf, sef lles gorau'r plentyn, yn ei wneud yn anodd i'r llys wrthod cydnabyddu perthynas sy'n bodoli eisoes rhwng y rhieni a fwriadwyd a'r plentyn. O ganlyniad, mae'r llysoedd wedi ymestyn neu newid nifer o'r gofynion statudol ar gyfer Gorchymyn Rhieni, ond nid yw'r gyfraith achosion wedi llwyddo i ddatrys problemau sylfaenol yr orchymyn, neu ganfod atebion i'r holl

anawsterau. Datganwyd bod un gofyniad, sef bod angen i ddau o bobl wneud cais ar gyfer Gorchymyn Rhieni, yn anghydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Ar hyn o bryd, mae'r Senedd yn archwilio gorchymyn adfer wedi'i fwriadu i gywiro'r anghysondeb hwn drwy ganiatáu un person i wneud cais am Orchymyn Rhieni. Mae'n bosib felly bod y gyfraith, a lywodraethir gan Ddeddfau 1985 a 2008, yn fwy anrhydeddus am gael ei thorri yn hytrach na'i dilyn.

- 2.95 O ganlyniad, mae yna gwestiynau arwyddocaol yn ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer gwobrwyo Gorchymyn Rhieni i'r rhieni a fwriadwyd. Rhai o'r materion yn unig yw'r rhain. Mae trefniadau benthyg croth hefyd yn amlygu pryderon ynglŷn â hawliau plant i gael gwybodaeth am eu rhieni genetidd a'u rhieni a fwriadwyd fel ei gilydd, tra bod cwestiynau ehangach yn bodoli ynglŷn â'r sylfaen ar gyfer caniatáu trefniadau benthyg croth. Mae trefniadau benthyg croth rhyngwladol yn amlygu'r problemau ynglŷn â chenhedlaeth plant wedi'u geni i rieni benthyg croth (gan gynnwys y risg o fod heb ddinasyddiaeth), dod â phlant wedi'u geni i rieni benthyg croth i mewn i'r DU, a'r risg o gamfanteisio ar yr holl bleidiau dan sylw.
- 2.96 Rydym o'r farn bod y gyfraith sy'n ymwneud â benthyg croth wedi dyddio ac yn aneglur, ac angen ei diwygio'n gynhwysfawr. Bydd diwygio yn darparu buddion sylweddol o ran eglurdeb, modernedd ac amddiffyn y rheiny sy'n cytuno i drefniadau benthyg croth ac, yn bwysicach, y plant sy'n cael eu geni o ganlyniad i drefniadau o'r fath.
- 2.97 Rydym yn gobeithio cychwyn y prosiect yng Ngwanwyn 2018 a disgwyl y bydd yn parha rhwng dwy a thair blynedd.

EWYLLYSIAU

Ffynhonnell: 13^{eg} Raglen Diwygio'r Gyfraith

Adran Arweiniol: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Cychwyn: Yn gynnar yn 2016

Ymgynghori: Gorffennaf-Tachwed 2017

Cwblhad arfaethedig: Canol 2019

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith a Bil drafft

- 2.98 Mae ewyllys unigolyn yn ddogfen bwysig. Mae pobl yn defnyddio ewyllysiau i ddewis sut i ddsbarthu eu heiddo ar ôl marw, ac yn aml er mwyn cyfleu eu dewis o ran beth sy'n digwydd i'w cyrff, ac i apwyntio gwarchodwyr a fydd yn gofalu am eu plant. Er hynny, mae amcangyfrif bod 40% o oedolion gydag ewyllys nad yw'n ddilys. Pan fo rhywun yn marw - heb adael ewyllys, neu gydag ewyllys annilys - gallai achosi anawsterau i'r teulu, yn ychwanegu straen ar adeg profedigaeth.
- 2.99 Mae'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr sy'n llywodraethu ewyllysiau, i raddau helaeth, yn dyddio o'r 19eg ganrif: y prif statud yw Deddf Ewyllysiau 1837, a'r gyfraith sy'n datgan pryd mae gan unigolyn y gallu i wneud ewyllys ("gallu ewyllysiol") yn cael ei gyflwyno yn yr achos Banks v Goodfellow 1870. Mae angen moderneiddio'r gyfraith ewyllysiau i ystyried y datblygiadau cymdeithasol, technolegol a meddygaeth ers Oes Fictoria.

2.100 Mae'r prosiect yn cynnwys adolygiad eang o'r gyfraith ewyllysiau, gyda'r materion canolog yn cynnwys gallu testamentaidd; y rheolau sy'n llywodraethau pryd mae ewyllys yn ddilys (fel gofynion ar gyfer llofnodi a thystio), a beth sy'n digwydd i'r rheolau hynny os na chânt eu dilyn yn gywir; diogelu ewyllyswyr agored i niwed; a gwneud ewyllysiau ar ffurf electronig.

2.101 Cynigiodd ein papur ymgynghori ddiwygiadau sydd gyda'r potensial i gefnogi rhyddid testamentaidd drwy sicrhau bod dymuniadau olaf pobl ynglŷn â beth sy'n digwydd i'w eiddo yn cael eu gwireddu, i ddiogelu'r unigolion hynny sy'n gwneud eu hewyllys yn erbyn twyll a dylanwad amhriodol ac i gynyddu eglurdeb a sicrwydd y gyfraith.

2.102 Gwnaethom ymgynghori ar y pwnc hwn rhwng Gorffennaf a Tachwedd 2017, ac rydym yn disgwyl cwblhau'r prosiect erbyn canol flwyddyn 2019.

PROSIECTAU ARFAETHEDIG PELLACH

2.103 Er mwyn sicrhau bod y ddogfen hon yn cyflwyno gwir sefyllfa o'n gwaith, rydym yn tynnu sylw at y prosiectau a ddiogelodd gefnogaeth yr Arglwydd Ganghellor yn y 13^{eg} Raglen, ond lle nid oes gennym gynlluniau pendant mewn lle i gychwyn gwaith. Rydym yn gobeithio, yn ystod y 13^{eg} Raglen, y byddwn ni'n gallu symud ymlaen gyda rhai, onidê bob un, o'r prosiectau a restrir isod:

- Adolygiad Gweinyddol
- Fframwaith Modern ar gyfer Gwaredu'r Meirw
- Telerau Annheg Mewn Lesddaliad Preswyl
- Gwarannau Canolraddol
- Moderneiddio Cyfraith Ymddiriedolaeth ar gyfer Prydain Fyd-Eang
- Casgliadau Amgueddfeydd
- Tir Cofrestredig ac Atebolrwydd Atgyweirio Cangell

2.104 Mae manylion bellach ar gael ar ein gwefan.